



Asiantaeth Cymorth
Cyfreithiol

Darparu mynediad at gyfiawnder drwy weithio gydag eraill i
gyflawni rhagoriaeth wrth ddarparu cymorth cyfreithiol

Cynllun Iaith Gymraeg

**Adroddiad Monitro Blynyddol
2022-23 a 2023-24**

25 Chwefror 2025



Cynnwys

Cyflwyniad	2
Cydymffurfio â'r cynllun iaith Gymraeg	3
Tendrau	3
Cyhoeddiadau	3
Dangosyddion Perfformiad	4
DP 1 Gwasanaethau Rheng Flaen	4
DP 2 Darparu Gwasanaethau drwy Drydydd Partïon	5
DP 3 Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth Iaith	6
DP 4 Technoleg Gwybodaeth	6
DP 5 Gweinyddu'r Cynllun	7
Casgliad	8

Cyflwyniad

1. Dyma adroddiad yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ar weithrediad ei Chynllun Iaith Gymraeg yn seiliedig ar weithgareddau a gyflawnwyd yn ystod cyfnod adrodd blynyddoedd ariannol 2022-23 a 2023-24.
2. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gynhyrchu'n unol â Chynllun Iaith Gymraeg yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol a Chynllun Iaith Gymraeg diweddaraf y Weinyddiaeth Gyfiawnder a gymeradwywyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 9 Ebrill 2018. Bydd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn adolygu'r Cynllun Iaith Gymraeg yn 2024.
3. Drwy gydol y pandemig ac yn y cyfnod ar ei ôl, mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wedi monitro'r canllawiau a'r cyngor swyddogol a gyhoeddwyd ar gyfer Cymru a Lloegr ac mae wedi sicrhau bod cyngor sy'n ymwneud â Chymru wedi arwain ac wedi'i ymgorffori yn null yr Asiantaeth o ddiogelu'r ddarpariaeth gwasanaethau cymorth cyfreithiol, gan gynnwys darparu gwasanaethau a chymorth yn y Gymraeg, i gleientiaid yng Nghymru.
4. Mae darpariaeth Gymraeg y Gwasanaethau Cymorth Cyfreithiol yn cael ei harolygu gyda'r rhai sy'n darparu cyngor cymorth cyfreithiol. Bydd Rheolwyr Contractau'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol fel arfer yn sicrhau bod darparwyr cymorth cyfreithiol yn gallu cynnig gwasanaeth Gymraeg neu fod ganddynt broses y gallant gyfeirio ati.

Cydymffurfio â'r cynllun iaith Gymraeg

Tendrau

5. Mae ein contractau gyda darparwyr yn cynnwys gofyniad ynghylch darparu gwasanaethau Cymraeg i gleientiaid cymorth cyfreithiol yng Nghymru fel mater o drefn. Mae Contract Troseddu Safonol Cymorth Cyfreithiol 2022 a Chontract Sifil Safonol Cymorth Cyfreithiol 2018 yn cynnal y gofyniad hwn yn unol ag ymrwymiad yr Asiantaeth i ddiogelu'r ddarpariaeth hon yn yr holl gontractau cymorth cyfreithiol presennol ac yn y dyfodol ar gyfer darparu cyngor i'r cyhoedd.

Cyhoeddiadau

6. Bydd yr holl ddeunyddiau cyhoeddedig a fwriedir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Dangosyddion Perfformiad

- Rydym yn monitro ein perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad penodol y cytunwyd arnynt gyda Chomisiynydd y Gymraeg. Mae'r rhain yn ymwneud â'n gwasanaethau rheng flaen, darparu gwasanaethau drwy drydydd partion, hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o iaith, TG a chwynion.

DP 1 Gwasanaethau Rheng Flaen

Staff dwyieithog

- Yn 2022-23, roedd gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol chwe aelod o staff dwyieithog a dau ddysgwr ar lefel uwch. O'r chwe aelod o staff dwyieithog, roedd tri yn gweithio yn Nhîm Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymru, ynghyd ag un o'r dysgwyr uwch. Roedd hyn yn cyfateb i oddeutu 26% o'r tîm yn 2022-23. Yn 2023-24, mae gennym bum aelod o staff dwyieithog a thri dysgwr ar lefel uwch. O'r pum aelod staff dwyieithog, mae tri yn gweithio yn Nhîm Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymru, ynghyd â'r tri dysgwr uwch. Unwaith eto, mae hyn yn cyfateb i oddeutu 26% o'r tîm. Mae'r Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid yn gweithio ar ein gwasanaethau rheng flaen (ffôn, gohebiaeth, ceisiadau) ac yn helpu gyda gwaith prawf ddarllen a chyfieithu o bryd i'w gilydd. Yn ogystal, mae dau aelod o staff dwyieithog o adrannau eraill yn y swyddfa yng Nghaerdydd, sydd hefyd yn gallu cefnogi gwasanaethau Gymraeg yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol os oes angen.
- Rydym yn dal i gael adborth cadarnhaol gan ein darparwyr am ein gwasanaethau rheng flaen Gymraeg. Cesglir yr adborth hwn yn anffurfiol drwy ymweliadau a negeseuon e-bost gan ddarparwyr.

Ceisiadau cymorth cyfreithiol troseddol

- Mae'r broses ymgeisio am geisiadau cymorth cyfreithiol troseddol yn cynnwys ffurflen gais Gymraeg ar-lein i sicrhau bod ein cleientiaid yn gallu parhau i wneud cais am Gymorth Cyfreithiol Troseddol yn Gymraeg a derbyn yr holl ohebiaeth gysylltiedig yn Gymraeg os ydyn nhw'n dewis gwneud hynny. Yn ystod y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2023, cawsom un cais yn Gymraeg sy'n ostyngiad o naw ers y flwyddyn flaenorol. Yn ystod y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2024, cawsom dri chais yn Gymraeg sy'n gynydd o ddau ers y flwyddyn flaenorol.

Galwadau ffôn

- Rydym yn cadw cofnodion misol o'r galwadau ffôn a dderbynnir ar y llinell ffôn Gymraeg. Mae'r galwadau hyn yn cynnwys ymholiadau am gymorth cyfreithiol Sifil a Throseddol. Mae ein dadansoddiad yn dangos ein bod wedi derbyn 185 o alwadau rhwng mis Ebrill 2022 a diwedd mis Mawrth 2023, sef 13.5% yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Er mwyn cymharu, yn ystod yr un cyfnod cawsom ostyngiad o 4.17% mewn galwadau Saesneg. Rhwng mis Ebrill 2023 a diwedd Mawrth 2024, cafwyd 164 o

alwadau, sy'n 11.35% yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Er mwyn cymharu, yn ystod yr un cyfnod cafwyd cynnydd o 2.68% mewn galwadau Saesneg.

Cymorth cyfreithiol sifil

12. Yn ogystal â chofnodi manylion y galwadau ffôn, rydym ni'n parhau i gofnodi ein rhyngweithiadau digidol yn y Gymraeg. Yn ystod cyfnod adrodd blwyddyn ariannol 2022-23, cawsom 64 o geisiadau drwy ein System Rheoli Cleientiaid a Chostau (CCMS) (ein system ar gyfer delio â chymorth cyfreithiol sifil) yn Gymraeg. Yng nghyfnod adrodd blwyddyn ariannol 2023-24, cafwyd 50 o geisiadau drwy CCMS yn Gymraeg. Rydym yn parhau i fonitro'r holl drafodion Cymraeg.

	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24
E-byst a dderbyniwyd	54	5	0	3
Ceisiadau am ohebiaeth Gymraeg (CCMS)	138	63	64	50

DP 2 Darparu Gwasanaethau drwy Drydydd Partïon

Gwasanaethau wyneb yn wyneb

13. Mae'r rhan fwyaf o'n gwasanaeth rheng flaen yn cael ei ddarparu gan ein darparwyr dan gontract. Mae contractau cymorth cyfreithiol gyda darparwyr wyneb yn wyneb yn cynnwys gofynion penodol i sicrhau bod darparwyr yn gallu darparu gwasanaeth Cymraeg yng Nghymru. Mae cwmnïau'n cydymffurfio drwy gyflogi siaradwyr Cymraeg, neu mae ganddynt drefniadau ar waith i ddarparu gwasanaeth Cymraeg drwy gyfeirio at ddarparwr Cymraeg ei iaith o fewn yr un maes caffael lle mae'r ddarpariaeth ar gael.
14. Mae Rheolwyr Contractau yn parhau i fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo'r gwasanaeth Cymraeg fel rhan o'u gweithgareddau arferol yng Nghymru, gan gynnwys yn ystod y rhaglen ymweliadau blynyddol i ddarparwyr.
15. Mae gwasanaethau Cymraeg, fel ein llinell ffôn a'n ffurflenni dwyieithog (gan gynnwys Ffurflen Cyllid Achosion Eithriadol ECF1 a Ffurflen Cwest ECF a ddiweddarwyd ym mis Gorffennaf 2022) ar gael dim ond ichi ofyn.
16. Rydym ni wedi defnyddio X (Twitter gynt) i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ac i anfon negeseuon trydar yn Gymraeg. Cawsom un trydariad Cymraeg yn 2022-23 yn

ein hannog i recriwtio Gweithwyr Achos Cymraeg. Ni chawsom yr un neges ar Twitter yn Gymraeg yn 2023-24.

Gwasanaethau ffôn

17. Rydyn ni'n parhau i ariannu'r Gwasanaeth Cyngor Cyfreithiol Sifil (CLA) sy'n wasanaeth llinell ffôn cynghori cenedlaethol sy'n darparu cyngor cyfreithiol arbenigol ar Ddyledion, Addysg, Tai, Teulu a Gwahaniaethu. Mae modd i gleientiaid sy'n defnyddio'r gwasanaeth brysbennu galwadau ffôn cychwynnol ddewis siarad yn Gymraeg.
18. Mae gwasanaeth ar-lein digidol '*Gwirio os y gallwch chi gael cymorth cyfreithiol*' yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ar GOV.UK ar gael yn Gymraeg ac mae'n helpu cleientiaid i benderfynu a ydy eu problem yn disgyn o fewn cwmpas cymorth cyfreithiol ac a ydyn nhw'n debyg o fod yn gymwys yn ariannol i gael cyllid cyhoeddus. Os yw'n briodol, cynigir eu ffonio nhw'n ôl, gan ddefnyddio cyfieithwyr Cymraeg o'r Cyngor Cyfreithiol Sifil er mwyn bwrw ymlaen â'u hachos. Rydyn ni'n parhau i ehangu'r ddarpariaeth o gymorth Cymraeg sydd ar gael yn ddigidol ac rydyn ni'n gweithio ochr yn ochr â thîm Polisi Cymorth Cyfreithiol y Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau bod cyfeiriadau o'r gwasanaeth ar-lein i sefydliadau'r trydydd sector hefyd ar gael yn Gymraeg.
19. Pan fydd cleientiaid yn cael eu cadw yn y ddalfa gan yr heddlu ac mae angen cyngor cyfreithiol arnyn nhw, mae modd iddyn nhw wneud cais am gyfreithiwr sy'n siarad Cymraeg pan fydd swyddog y ddalfa yn cysylltu â Chanolfan Alwadau Cyfreithiwr ar Ddyletswydd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. Mae'r gwasanaeth hwn yn golygu bod modd anfon cyfreithiwr priodol i'r orsaf heddlu.

DP 3 Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth Iaith

20. Neilltuir amser ar gyfer hyfforddi a datblygu i'r holl staff. Mae'r Asiantaeth yn chwilio'n frwd am ffyrdd newydd arloesol o ddatblygu sgiliau ei dysgwyr Cymraeg uwch ac mae'n ceisio canfod cyfleoedd dysgu priodol bob blwyddyn. Rydyn ni hefyd yn parhau i drafod pob cyfle dysgu a datblygu gyda'n staff, gan gynnwys a ydyn nhw'n dymuno cael hyfforddiant Cymraeg. Pan fydd unigolyn yn mynegi diddordeb mewn datblygu sgiliau Cymraeg, canfyddir hyfforddiant addas i ddiwallu'r angen hwnnw.

DP 4 Technoleg Gwybodaeth

21. Defnyddir ein system TG ar gyfer materion cymorth cyfreithiol sifil. Mae'r System Rheoli Costau a Chleientiaid (CCMS) ar gyfer darparwyr cymorth cyfreithiol sifil a theulu ac eraill a neilltuwyd i weithio ar eu hachosion, yn cynnwys eiriolwyr, clerod a chyfreithwyr costau. Mae CCMS yn cwmpasu'r broses gyfan ar gyfer gwaith cymorth cyfreithiol sifil a theulu ardystiedig¹, o gyflwyno ceisiadau cymorth cyfreithiol hyd at dalu biliau. Mae unrhyw ohebiaeth ac unrhyw ddatganiadau sy'n gofyn am lofnod cleient ar

¹ Ceisiadau a wneir i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol am benderfyniad. Mae lefelau o waith ymlaen llaw y gall darparwyr ei wneud heb ei fod yn waith ardystiedig.

gael yn Gymraeg ar gais. Fodd bynnag, nid yw'r broses o gyfieithu cynnyrch digidol LAA i'r Gymraeg bob amser yn syml gan nad yw rhai o'r hen systemau gwaith achos TG yn cynnwys cyfieithiadau Cymraeg. Er gwaethaf yr her hon, bydd llythyrau bob amser yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg ar gais.

DP 5 Gweinyddu'r Cynllun

22. Y Gwasanaethau Corfforaethol a oedd yn dal i fod yn gyfrifol am ein Cynllun Iaith Gymraeg yn ystod cyfnod adrodd blynyddoedd ariannol 2022-23 a 2023-24.
23. Ni chafwyd unrhyw gŵyn am ein gwasanaethau Cymraeg yn ystod cyfnod adrodd blynyddoedd ariannol 2022-23 a 2023-24.

Casgliad

24. Gallaf adrodd ein bod wedi parhau i gyflawni Cynllun Iaith Gymraeg effeithiol yn llwyddiannus yn ystod cyfnodau adrodd 2022-23 a 2023-24 ac wedi parhau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o safon uchel.

Jane Harbottle

Prif Weithredwr, Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol



© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i:

nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

